### Egwyddor Datblygu

Mae safle'r cais o fewn ffin anheddiad Aberteifi a nodir fel Canolfan Gwasanaethau Trefol yn y CDLI. Mae'r safle cais y tu allan i ffin canol tref Aberteifi.

Mae Polisi S01 yn cyfeirio mwyaf y twf i'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol gan eu bod yn cael eu hystyried yn lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu. Mae Maen Prawf 2 o'r Polisi yn nodi bod cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu darparu ar



defnyddiau cynllunio A1 / A2. Felly, er y gellir dweud bod canol tref Aberteifi yn perfformio'n eithaf da, ar hyn o bryd mae nifer o unedau gwag yng nghanol y dref.

Mae'r llythyr eglurhaol sy'n cyd-fynd â'r cais yn darparu'r cyfiawnhad canlynol dros leoliad y datblygiad:

*"Mae'r safle hwn wedi cael ei ddewis i redeg y busnes fel lleoliad prawf i gael syniad o'r galw am wasanaethau o'r fath yn yr ardal. Felly, er mwyn atal costau diangen i fusnes bach ac er mwyn annog llwyddiant y busnes, lleoli'r busnes ar y safle hwn fyddai'r opsiwn gorau gan fod y tir eisoes yn eiddo i deulu'r busnes. Heb wybod gofynion y farchnad ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn yr ardal, byddai'n anodd gofyn i fusnes newydd brynu neu ymrwymo i brydles hirdymor ddrud ar safle arall, pryd y gallent brofi'r busnes ar y safle hwn cyn ymrwymo i symud yn y dyfodol."*

Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud:

*"Yn ogystal, defnyddir Ystâd Ddiwydiannol Pentood ar gyfer ystod eang o fusnesau ac ni fyddai lleoli'r busnes yn yr ardal hwn yn arwain at or-ddatblygu'r safle gan y byddai'r busnes yn cael ei redeg a'i weld fel nifer o fusnesau B1 yn yr ardal. Byddai'r datblygiad hwn yn cynnig busnes mewn ardal sydd â llawer o fusnesau sefydledig, sy'n cyfrannu'n aruthrol at economi Aberteifi. Yn gyffredinol, gellir gweld natur y busnes hwn felly fel busnes addas iawn o fewn Ystâd Ddiwydiannol Pentood gan fod ei ymddangosiad allanol yn cyd-fynd â defnydd presennol y safle a chan nad yw defnydd yr argymhellid yn ffitio'n daclus i'r system dosbarth defnyddiau, lleoli'r busnes hwn ar safle nad yw'n creu unrhyw effaith andwyol ar yr ardal gyfagos yw'r opsiwn gorau sydd ar gael."*

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn nodi ansicrwydd ynghylch p'un ai fod angen am y busnes, fel y nodwyd uchod. Felly, nid oes angen am y datblygiad wedi'i brofi. Mae llawer o fusnesau tebyg yn profi'r farchnad trwy gynnig gwasanaeth yn y cartref i dyfu'r rhestr cleientiaid, sy'n tanseilio'r angen am y datblygiad arfaethedig ymhellach.

Gan fod y datblygiad arfaethedig yn dangos nodweddion ac effeithiau cynllunio sy'n sylweddol debyg i ddefnyddiau manwerthu, ystyrir y dylid cymhwyso'r prawf dilyniannol yn yr achos hwn. Cyflwynwyd prawf dilyniannol a chanfu cyfanswm o 4 uned fasnachol, sy'n cynnwys:

- Uned Manwerthu a Chaffi yn Sgwâr Finch, Aberteifi. Di-ystyriwyd ar y sail bod arwynebedd y llawr yn rhy fawr a gofyn am newidiadau sylweddol, ac felly nid yw'n hyfyw yn ariannol
- Swyddfa'r Post ar y Stryd Fawr, Aberteifi. Di-ystyriwyd ar y sail bod arwynebedd y llawr yn rhy fawr a gofyn am newidiadau sylweddol, ac felly nid yw'n hyfyw yn ariannol
- Eiddo Masnachol ym Mrynawelon, Glanrhyd. Di-ystyriwyd gan fod uned yn rhy fawr, diwydiannol ei natur, a byddai angen gwaith sylweddol i'w wneud yn addas, felly nid yw'n hyfyw yn ariannol
- Yr 'Hope and Anchor' blaenorol, Pendre, Aberteifi. Cydnabyddir mai hwn fyddai'r opsiwn gorau, gydag chynfas gwag ac mae tua'r maint cywir, ond fe'i di-ystyriwyd gan ei fod yn rhy ddrud

Nid oes unrhyw wybodaeth dichonoldeb fanwl wedi'i darparu i gefnogi di-ystyri'r unedau hyn ar y sail nad ydynt yn hyfyw yn ariannol. Nid yw'r wybodaeth ychwaith yn dangos bod ymdrech wirioneddol wedi'i gwneud i sefydlu'r busnes yng nghanol y dref, er enghraifft, ni ddarperir unrhyw wybodaeth ynghylch p'un ai y cysylltwyd â pherchenogion / gwerthwyr tai ac ati i holi ymhellach. Mae'n ymddangos bod y prawf dilyniannol wedi'i wneud ar ymchwiliad syml ar-lein, gyda di-ystyriaeth syml o'r unedau. Ar ben hynny, mae'r ACLI yn nodi bod unedau, o feintiau amrywiol, ar gael i'w gosod yng Nghanolfan Teifi gydag unedau a sefydlwyd yn ddiweddar hefyd ar gael yn Neuadd Farchnad Aberteifi. Mae'r ddau wedi eu lleoli yng nghanol y dref. Byddai sefydlu'r busnes o fewn uned wag / unedau sydd ar y gweill yng nghanol y dref yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfannau manwerthu. Byddai hefyd yn darparu defnydd sy'n briodol o fewn lleoliad canol tref. Gall eu lleoli ym Mhentood ddenu cwsmeriaid i ffwrdd o ganol y dref, a byddai'n debygol o gynyddu siwrneiau ceir, gan y byddai cwsmeriaid yn debygol o yrru i'r Uned Ddiwydiannol i ymweld â'r busnes. Byddai'r busnes wedi'i leoli yng nghanol y dref yn fwy cynaliadwy lle gallai cwsmeriaid ymweld â siopau eraill, caffis ac ati ar yr un pryd, a thrwy hynny fod o fudd i fusnesau eraill yng nghanol y dref a chyfrannu'n gadarnhaol tuag at gefnogi canol y dref. Byddai'r manteision hyn i ganol y dref yn cael eu colli drwy beidio â dod o hyd i ddatblygiad arfaethedig yng nghanol y dref, ac felly byddai'n tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd canol tref Aberteifi. Byddai hyn hefyd yn gwrthdaro ag amcanion polisïau cynllunio cenedlaethol i gynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfannau manwerthu a masnachol, a byddai'n mynd yn groes i bolisi canol y dref yn gyntaf.

Felly, o ystyried yr uchod, ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â nod ac amcanion polisïau cynllunio manwerthu, sy'n ceisio sefydlu angen datblygu manwerthu yn y lle cyntaf, yn gweithredu dull canol y dref yn gyntaf, ac yn ceisio cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfannau manwerthu a masnachol.

## **Dylunio ac Effaith Weledol**

Mae'r datblygiad arfaethedig o ansawdd is-safonol, sef blwch wedi'i leoli ar ben blwch arall. Felly, ni fyddai'n darparu naws groesawgar ac nid yw'n ddatblygiad o ansawdd da i gwsmeriaid. Fodd bynnag cydnabyddir, yn weledol y byddai'n yn cael ei weld yng nghyd-destun y blychau presennol sydd ar y safle a'r defnydd diwydiannol ehangach o'r safle, ac felly byddai'n

annhebygol o gael unrhyw effaith weledol niweidiol ar y dirwedd. Felly, nid yw'r cynnig yn gwrthdaro â Pholis CDLI DM06 neu DM17.

## **Amwynder Preswylwyr**

Nid oes unrhyw eiddo cyfagos yn agos o ystyried ei leoliad ar safle cyflogaeth.

## **Priffyrdd a Hygyrchedd**

Mae'r awdurdod priffyrdd lleol wedi cynghori nad yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o fod yn niweidiol i unrhyw fuddiannau awdurdod priffyrdd sirol.

Mae gan Ystad Ddiwydiannol Pentood amgylchedd gwael i gerddwyr, lle nad oes llwybrau troed mewn rhai rhannau. Byddai hyn yn atal pobl rhag gwneud siwrneiau cysylltiedig gan fod cwsmeriaid yn debygol o ymweld â'r busnes yn unig a / neu yrru i fusnesau/gwasanaethau eraill, gan bwysleisio ymhellach leoliad amhriodol y datblygiad.

## **Draenio Tir**

Mae'r safle'n gorwedd y tu allan i ardal llifogydd ac mae'n annhebygol o arwain at gynnydd mewn dŵr wyneb o ystyried ei leoliad uwchben cynhwysydd storio presennol a safle caled. Gall amodau ymdrin yn ddigonol ag unrhyw gynnydd mewn dŵr wyneb.

Mae Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi at ei gapasiti ac mae Dŵr Cymru wedi argymhell amod sy'n gwahardd cael ei feddiannu tan fis Mawrth 2027 neu nes bod y gwaith uwchraddio wedi'i gwblhau.

## **Ecoleg a Safleoedd Gwarchoddedig**

Ni chafwyd ymateb gan ecoleg. Mae safle'r cais yn agos at Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Fodd bynnag, o ystyried lleoliad, graddfa a natur y datblygiad, ni ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn arwain at unrhyw effaith ar ecoleg na'r safleoedd gwarchoddedig.

## **ARGYMHELLIAD:**

Argymhellir gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:

1. Nid yw'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ar safle a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth yn cynnig defnydd B1, B2 a B8. Felly, mae'n methu â chydymffurfio â Chynigion Cyflogaeth LU11 Polisi CDLI, Safleoedd Dynodedig.
2. Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â nod ac amcanion polisïau cynllunio manwerthu, sy'n ceisio sefydlu anghenion datblygu manwerthu yn y lle cyntaf, yn gweithredu dull canol y dref yn gyntaf, ac yn ceisio cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfannau manwerthu a masnachol. Felly, mae'n methu â chydymffurfio â pholisïau cynllunio manwerthu sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12, Chwefror 2024) a TAN 4 Datblygiad Manwerthu a Masnachol (2016), yn ogystal â Pholisïau CDLI LU18 a LU19

## **Rheswm dros adrodd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu**

Mae'r aelod lleol wedi gofyn fod y cais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r cynnig yn cymryd gofod llawr a ddyrannwyd ar gyfer y safle diwydiannol. Mae'r cais yn edrych i greu arwynebedd llawr ychwanegol yn yr ardal i leoli'r busnes. Felly, ni fyddai'r cynnig hwn yn arwain at golli arwynebedd llawr sydd ar gael i fusnesau eraill.
- Mae'r CDLI wedi dyddio ac mae gwelwyd newidiadau sylweddol mewn arferion defnyddwyr, gwleidyddiaeth a phwysau ariannol ers iddo gael ei fabwysiadu. Adlewyrchir hyn mewn ceisiadau cynllunio blaenorol a gymeradwywyd yn Aberteifi i drosi siopau (o fewn y Ffryntiau Manwerthu Eilradd - nid ar hyd y brif stryd fawr) yn anheddau preswyl. Mae 6 cais a gymeradwywyd o fewn Tref Aberteifi i'r pwrpas hyn ers 2008.
- Nid oes unedau addas ar gael i'w rhentu na'u prynu yn Aberteifi adeg cyflwyno hwn. Mae'r unedau sydd ar gael yn rai sylweddol ac yn fwy nac anghenion salon harddwch ar gyfer un person. Byddai disgwyl i fusnes bach newydd fforddio prisiau rhent mawr ar gyfer unedau sy'n llawer rhy fawr yn golygu na fyddai'r busnes yn hyfyw o'r cychwyn cyntaf a dylem fod yn annog busnesau i'r ardal, yn hytrach na'u hatal.
- Roedd Viv Skips hefyd yn arfer gweithredu o'r safle lle mae'r cais wedi'i leoli arno. Roedd e'n cyflogi 3 unigolyn ac roedd ystafell staff a chyfleusterau llesiant ar wahân ar gyfer y busnes. Felly, bydd y cais hwn yn llai o effaith o ran ffosffadau na'r hyn a oedd ar y safle ychydig flynyddoedd yn ôl.
- Yn olaf, lladd-dy oedd ar y safle hwn yn wreiddiol a byddai hynny wedi cyfrannu mwy o ran dŵr budr a dŵr wyneb.

<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A240148
<b>Derbyniwyd / Received</b>	29-02-2024
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Proposed new storage container unit to accommodate a beauty therapy business (suis generis use)
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Parc Piliau, Pentood Industrial Estate, Cardigan. SA43 3AL
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mark Jukes (Mark Jukes Containers), Parc Piliau Pentood Industrial Estate (private), Cardigan, Ceredigion, SA43 3AL
<b>Asiant / Agent</b>	Mr Wyn Harries (Harries Planning Design Management), Henllan, Eglwysrwr, SA41 3UP

## THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site is located within Pentood Industrial Estate, which lies within the Urban Service Centre of Cardigan. The application site lies to the south of the river Teifi and is accessed from Station Road. Pentood Industrial Estate is an employment allocation within the LDP for B1, B2 and B8 uses (ref:E0202).

The site itself refers to an existing storage container business known as Mark Jukes Containers. The site currently contains a number of storage container units which are rented out to individuals for private lockable storage, with a number of storage containers stacked upon each other.

Whilst there is planning history at the site, none are relevant to this proposal.

## DETAILS OF DEVELOPMENT

The application seeks full planning permission to provide a storage unit type building above existing storage containers and next to the existing site office to provide a beauty salon facility for the owner's daughter. The unit will comprise of smooth grey elevations, with white UPVC windows and doors to correspond with the existing site office. The height of the unit will not be taller than existing units on site. The business will make use of the existing site entrance with parking available to the front. The unit will be accessed via a ramp, which will serve both the site office and the beauty salon. In order to comply with Building Regulations, amended plan was received in May 2024, showing a revised design for the ramp, which is much larger in scale.

The application states that foul drainage will be connected to the existing systems. No details for the disposed of surface water is provided.

## RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

### Relevant National Planning Policy:

- Future Wales: The National Plan 2040
- Planning Policy Wales (Edition 12, February 2024)
- TAN 4: Retail and Commercial Development (2016)
- TAN12 Design (2016)
- TAN5 Nature Conservation and Planning (2009)

### Relevant Local Planning Policy:

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Growth
- S02 Development in Urban Service Centres (USCs)
- LU11 Employment Proposals on Allocated Sites
- LU18 Retail Proposals Countywide
- LU19 Retail Proposals in Urban Service Centres
- DM03 Sustainable Travel
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM09 Design and Movement
- DM10 Design and Landscaping
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity

- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape

## **OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS**

### **CRIME AND DISORDER ACT 1998**

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

### **EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

### **WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

## **CONSULTATION RESPONSES**

- **Cyngor Tref Aberteifi Town Council** - No objection
- **Highways** - The proposed development is unlikely to be detrimental to any county highway authority interests.
- **Land Drainage** - Recommended conditions. SuDS Approval may be required
- **Ecology** - No comments received
- **Natural Resources Wales** - No comments to make
- **Welsh Government Highway Authority (Trunk Road)** - Does not issue direction
- **Welsh Water** - Recommended conditions including preventing occupation until 31 March 2027 or until the upgrading works to the Cardigan WWTW has been completed.

No representation received from third party.

## **CONCLUSION**

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

### **Principle of Development:**

The application site lies within the settlement boundary of Cardigan which is identified as an Urban Service Centre (USCs) within the LDP. The application site lies outside of the town centre boundary for Cardigan.

Policy S01 directs the majority of growth to the USCs as they are considered to be the most sustainable locations for development. Criterion 2 of the Policy states that employment opportunities are provided on allocated site, and on sites that have not been allocated in accordance with policies LU11-LU21. Policy S02 states that development will be permitted within Cardigan USC where it contributes to its overall sub-regional role as set out in the Settlement Group Statements (SGS) and



contributes to their regeneration strategies, where these exist.

The application lies within the Pentwood Industrial Estate, which is an employment allocation within the LDP for B1, B2 and B8 uses (ref:E0202). LDP Policy LU11 refers to employment proposals on allocated sites, and states that proposals will be permitted provided that:

1. It reflects and enhances the recognised role of the site and is in line with the relevant Allocated Sites Schedule
2. It protects and enhances the existing B1, B2 and B8 and complementary sui generis use of the site; and
3. It provides appropriate supportive infrastructure.

Supporting paragraph 7.68 states that uses which more closely resemble A1 use class units, attracting members of the public rather than trade customers, are generally inappropriate on employment allocated sites. This is because they generate car movements and parking requirements and detract from the vitality of town centres and existing retail parks.

The Allocated Sites Schedule states that the proposal for the allocation is to maximise use of remaining land and the redevelopment and / or rationalisation of existing site to provide for B1, B2 and B8 uses.

Therefore in view of the above, the proposed development conflicts with LDP Policy LU11 as it does not propose a B1, B2 or B8 uses, but instead is an use that would be better suited and expected to be seen, within a town centre location.

The application states that the proposed use falls under planning use class Other / Sui Generis. The Land Gazetteer also states that beauty therapy falls under planning use class Sui Generis.

In 2018, the Welsh Government issued a consultation document on planning use classes. The document made reference to Beauty Salons, noting that practice amongst LPAs varies with some considering beauty salons to fall within use class A1, some A2 and other considering it a unique use. It states that beauty salons are increasingly common in town centres and do not demonstrate significantly different land use characteristics or planning impacts to hairdressers, which are specified in use class A1. It goes on to note that such uses are part of modern town centre usage, sitting alongside retail and cafe uses. The document proposes to clarify beauty salons falling within use class A1.

The proposed changes to the planning use class order, set out by the consultation document, has not come into force. However, and as recognised within the consultation document, beauty salons closely resemble uses falling under A1 such as hairdressers, they provide services to members of the public, and are commonly part of town centre usage. Therefore it is considered necessary and reasonable to consider the application against retail policies.

LDP Policies LU18 and LU19 refer to retail development, with criterion 3 of Policy LU19 considered to be of most relevance to this proposal. It states that retail development will be permitted provided that it does not have a significant negative individual or cumulative impact on the vitality and viability of the existing town centre. Supporting para. 7.120 states that new retail developments located outside of town centres can have a detrimental impact on existing retail uses within those centres. It also states that the need for the new retail development should be established with the onus being on the developer to provide evidence of need.

In terms of national planning policy, PPW states that when determining planning applications for retail development, LPAs should first consider whether there is a need for additional retail provision (para 4.3.14), with the emphasis on establishing quantitative need (para 4.3.15). It also operates a 'town centre first' policy in relation to the location of new retail and commercial development. In implementing this policy, a sequential approach should be adopted, where the first preference is to locate new development within a retail and commercial centre, defined in the development plan hierarchy of centres (para 4.3.18). PPW also states that edge-of-centre or out-of-centre sites should not be of a scale, type or location likely to undermine the vibrancy, attractiveness and viability of retail centres, and should not be allowed if they would be likely to put development plan retail strategies at risk (para 4.3.20).

Further guidance is provided within TAN 4 Retail and Commercial Development. Objective 2 seeks to sustain and enhance the vibrancy, viability and attractiveness of retail and commercial centres. TAN 4 gives a distance figure of around 200-300metres for edge-of-centre sites, however, it also notes that it may be appropriate to use a shorter distance if the centre is smaller (para 7.4).

The application site is approximately 600 metres from the town centre boundary of Cardigan and is therefore considered to be out-of-centre for the purpose of retail planning policies. A survey undertaken by the LPA in February 2024 shows that Cardigan town centre has a vacancy rate of 8.1%, which equates to 34 units. Many of the vacant units fall within planning use class A1 / A2. Therefore, whilst Cardigan town centre can be said to perform quite well, nevertheless there are currently a number of vacant units within the town centre.

The cover letter accompanying the application provides the following justification for the location of the development:

*"This site has been chosen to run the business as a test facility to get a feel for the demand for such services in the*

*area. Therefore, to prevent unnecessary overheads of a small business and to encourage success of the business, siting the business at this site would be the best option as the land is already owned by the family of the business. Without knowing the market for such services in the area, it would be onerous to ask a new business to purchase or commit to an expensive long-term lease of another site, when they could test the business on this site before committing to any future move."*

It goes on to state that:

*"Additionally, the Pentood Industrial Estate is used for a wide range of businesses and siting the business in this area would not lead to over development of the site as the business would be run and read as many B1 businesses in the area. This development would propose a business in an area which has many established businesses, which contribute enormously to Cardigan's economy. Overall, the nature of this business can therefore be read as a well-suited business within the Pentood Industrial Estate as its external appearance is in-keeping with the site's existing use and as the use of the proposal does not neatly fit into the use class system, siting this business at a site which does not create any adverse impact on the surrounding area is the best available option."*

The information submitted indicates an uncertainty regarding whether there is a need for the business, as noted above. Therefore, a need for the development has not been demonstrated. Many similar businesses test the market by offering a home based service to build up a client roster, which further undermines the need for the proposed development.

As the proposed development demonstrates characteristics and planning impacts that are considerably similar to retail uses, it is considered that the sequential test in this instance should be applied. A sequential test has been submitted which found a total of 4 commercial units, which include:

- Retail Unit and Cafe at Finchs Square, Cardigan. Discounted on the basis that the floorarea is too large and requires significant alterations, and therefore not financially viable
- Post Office on High Street, Cardigan. Discounted on the basis that the floorarea is too large and requires significant alterations, and therefore not financially viable
- Commerical Property at Brynawelon, Glanrhyd. Discounted as unit is too large, industrial in nature, and would require significant work to be suitable, therefore not financially viable
- Formally the Hope & Anchor, Pendre, Cardigan. Recognises that this would be the best option, with a blank canvas style and approximately the correct size, but discounted as its too expensive

No detailed information has been provided on feasibility to support discounting these units on the grounds that they are not financially viable. The information also does not show that a real effort has been made to establish the business within the town centre, for example, no information is provided on whether contact has been made with owners / estate agents etc. to enquire further. It appears that the sequential test has been made on a basic online search, with the units simply discounted. Furthermore, the LPA notes that there are units, of varies sizes, available to let within Canolfan Teifi with units also coming available at Cardigan Market Hall which has recently been established. Both of these are located within the town centre. Establishing the business within a current vacant unit / upcoming units within the town centre, would contribute positively towards sustaining and enhancing the vibrancy, viability and attractiveness of retail centres. It would also provide a use which is appropriate within a town centre location. Being sited at Pentood could draw customers away from the town centre, and would likely increase vehicular trips, as customers would likely drive to the Industrial Unit to visit the business. The business would be more sustainably located within the town centre, where customers could visit other shops, cafes etc. at the same time, thus benefitting other businesses within the town centre and contributing positively towards supporting the town centre. These benefits on the town centre would be lost by not locating the proposed development in the town centre, and thus would undermine the vitality and viability of Cardigan town centre. This would also conflict with the objectives of national planning policies to sustain and enhance the vibrancy, viability and attractiveness of retail and commercial centres, and would go against the town centre first policy.

Therefore, in view of the above, the proposed development is considered to conflict with the aim and objectives of retail planning policies, which seeks to establish a need for retail development in the first instance, operates a town centre first approach, and seeks to sustain and enhance the vibrancy, viability and attractiveness of retail and commercial centres.

### **Design and Visual Impact**

The proposed development is of a sub-standard quality, being a container positioned on top of another container. It would not therefore provide a welcoming or good quality form of development to customers. However, it is recognised, that visually, it would be read in the context of the existing containers on site and the wider industrial use of the site, and therefore unlikely to have any adverse visual impact on the landscape. The proposal does not therefore conflict with LDP Policy DM06 or DM17.

### **Residential Amenity**

There are no neighbouring properties within proximity given its location on an employment site.

### **Highways and Accessibility**

The local highway authority has advised that the proposed development is unlikely to be detrimental to any county highway authority interests.

Pentod Industrial Estate has poor pedestrian environment, where in some parts there are no footpaths. This would deter people from making linked trips where customers are likely to visit the business only and / or drive to other businesses/services, further emphasising the inappropriate location of the development.

### **Drainage**

The site lies outside of a floodzone and is unlikely to result in increase in surface water given its location above an existing storage container and hardstanding. Conditions can adequately dealt with any increase in surface water.

The Cardigan Waste Water Treatment Plant is at capacity and Dwr Cymru has recommending a condition prohibiting occupation until March 2027 or until the upgrading works have been completed.

### **Ecology and Protected Sites**

No response has been received from ecology. The application site lies within proximity to the river Teifi SAC and SSSI. However given the location, scale and nature of the development, the proposed development is not considered to result in any impact on ecology or the protected sites.

### **RECOMMENDATION:**

The application is recommended for refusal for the following reasons:

1. The proposed development is located on an employment allocated site does not propose a B1, B2 and B8 use. It therefore fails to comply with LDP Policy LU11 Employment Proposals on Allocated Sites.
2. The proposed development is considered to conflict with the aim and objectives of retail planning policies, which seeks to establish a need for retail development in the first instance, operates a town centre first approach, and seeks to sustain and enhance the vibrancy, viability and attractiveness of retail and commercial centres. It therefore fails to comply with retail planning policies contained within Planning Policy Wales (edition 12, February 2024) and TAN 4 Retail and Commercial Development (2016), as well as LDP Policies LU18 and LU19

### **Reasons for reporting to the Development Management Committee**

The local member has requested that the application is reported to the Development Management Committee for the following reasons:

- The proposal does not take away floor space that was allocated for the industrial site. The application seeks to create additional floor space to the area to site the business. Therefore, this proposal would not result in the loss of floorspace available for other businesses.
- The LDP is outdated and there have been significant shifts in consumer habits, politics and financial pressures since it was adopted. This is reflected in previous planning applications approved in Cardigan to convert shops (within the Secondary Retail Frontage - not along the main high street) into residential dwellings. There are been 6 approved applications within Cardigan Town for this since 2008.
- There are no suitable available units to rent or purchase within Cardigan at the time of submission. The units available are substantial and over the requirement for a small single employee beauty salon. Expecting a small start-up to be able to afford large rental prices for units far too big would render the business unviable from the start and we should be encouraging businesses to the area, not halting them.
- The site the application is sited on used to also have Viv Skips operating out of it. He employed 3 individuals and there was a separate staff room and welfare facilities for the business. Therefore, this proposal is less of an impact in terms of phosphates than what was on site just a few years ago.
- Finally, the site was originally a slaughter house and this would have contributed more in terms of foul and surface water.

## 2.5. A240180



<b>Rhif y Cais</b>	A240180
<b>Derbyniwyd</b>	13-03-2024
<b>Y Bwriad</b>	Adeiladu uned i gynnwys llety staff dros dro
<b>Lleoliad Safle</b>	Neuadd Cyngor Ceredigion, Ffordd Mynediad Swyddfeydd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron. SA46 0PA
<b>Math o Gais</b>	Cynllunio llawn
<b>Ymgeisydd</b>	Mr Andrew Pointon-Bell (BAM Nuttall), Bam Nuttal Site Offices, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

## Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn cyfeirio at barsel o dir tua 0.29 hectar sy'n ffurfio rhan o safle presennol sy'n ymwneud â Chynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron (CAA) sydd wedi'i gymeradwyo ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen yno ar hyn o bryd. Ceir mynediad i'r uned presennol o faes parcio Penmorfa ac mae'n cynnwys swyddfeydd safle dros dro a pharsel o dir caled wedi'i leoli ar ochr y môr yng Nghartref Gofal Preswyl Min-y-Môr. Mae'r darn o dir dan sylw i'r gogledd/gogledd-ddwyrain o swyddfeydd presennol y safle ac mae'n ffinio â chefn Ysgol Gynradd Aberaeron a phedair annedd breswyl a leolir ar Rodfa'r Traeth.

Cyngor Sir Ceredigion sy'n berchen ar y tir ac mae ganddo ganiatâd cynllunio i'w ddefnyddio fel rhan o'r safle adeiladu dros dro mewn cysylltiad â'r gwaith CAA gyda chyfeirnod cynllunio A211019.

## MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer lleoli 24 uned llety sengl 'Bunkabin' dros dro sy'n ofynnol i'w defnyddio gan weithlu'r CAA - i gynnwys unrhyw weithwyr arbenigol y mae'n ofynnol iddynt deithio i Aberaeron i weithio.

Mae'r unedau sengl arfaethedig yn mesur ~ 2.9m (lled) x 4.3m (hyd) x 2.8m (uchder) a byddent yn eistedd ar y ddaear, felly nid oes angen unrhyw sylfaen barhaol. Cynigir bod yr unedau'n cael eu halinio mewn dwy res o 12, yn wynebu mewn at lwybr cerdded 3m, gyda'r unedau wedi'u hamgylchynu gan wal o bridd 2m o uchder, gan ddilyn y ffiniau a rennir gyda'r ysgol a'r anheddau preswyl er mwyn darparu sgrinio.

Darparwyd cyfiawnhad am ofyniad yr unedau a'r ystyriaethau a wnaed o ran eu lleoliad a'u heffaith i'r gymdogaeth fel a ganlyn:

*Mae gan Bam Nuttall ganiatâd cynllunio i osod uned swyddfeydd dros dro gyda swyddfeydd a lles sy'n gysylltiedig â hyn. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd angen gweithlu arbenigol arnom a fydd yn teithio at y cynllun oherwydd ei leoliad anghysbell, yn ogystal â'n llafur lleol.*

*Mae'r cais hwn yw ychwanegu unedau dros nos at gynllun llety safle dros dro y cytunwyd arno eisoes.*

### Gofyniad

*Oriau gwaith y safle a ganiateir yw 7am tan 7pm. Mae hyn yn hanfodol i'r rhaglen adeiladu gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith yn ymwneud â'r llanw, mae angen amser arnom i greu, a chyflwyno'r shift llanw a symud yr offer y naill ochr i'r cyfnod llanw isel. Bydd y cyfnod llanw hon yn mynd yn ei flaen yn ystod yr oriau 7am tan 7pm yn unol â chynnydd y cylch llanw gan symud ymlaen tua 45 munud bob dydd.*

**Yn unol â'r Rheoliadau Amser Gwaith mae'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith sicrhau bod ein gweithlu'n cael seibiannau gorffwys digonol. Sef o leiaf 11 awr rhwng sifftiau a hefyd rydym yn ystyried amseroedd teithio/cymudo. Dyma pam fod angen cael llety tymor byr dros dro ar y safle gwaith i leihau amser teithio ac i wneud y mwyaf o gyfnodau gorffwys.**

*Mae dod o hyd i lety lleol yn Aberaeron yn enwedig yn ystod misoedd yr haf ar gyfer nifer y personél ar sail gwaith sifft yn anodd iawn ac nid yw'n ymarferol.*

### Mesurau a Gymerwyd / Ystyriaethau gyda'r cynnig

- Bydd y llety dros dro ac o ymddangosiad tebyg i'r swyddfeydd dros dro
- Bydd cyn lleied â phosib o 'Bunkabins'
- Byddant wedi'i leoli i ffwrdd o'r anheddau preswyl i'r gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain

- Mae unedau'n rhai dros dro, yn hunangynhwysol ac yn gallu cael eu symud yn llwyr pan nad oes angen
- Nid oes angen unrhyw sylfaen concriid parhaol ar yr unedau.
- Dim ond ar gyfer cyfnod y gwaith y bydd angen unedau, felly byddant yn cael eu symud oddi yno gyda'r unedau swyddfa. Bydd ardal y safle yn cael ei hadfer yn llawn i'w gyflwr gwreiddiol yn unol â'r cais gwreiddiol
- Bydd yr unedau yn cael eu gosod i wynebu ei gilydd felly ni fydd unrhyw ffenestri/drysau yn wynebu oddi ar y safle er mwyn osgoi sŵn sy'n gysylltiedig a hwy ac i osgoi rhag edrych i gyfeiriad eiddo cyfagos
- Bydd y safle'n cael ei ffensiō'n llawn
- Bydd wal bridd 2m o uchder yn cael ei osod o amgylch y perimedr. Bydd hyn nid yn unig yn gweithredu fel sgrin weledol ond hefyd yn amsugno sŵn i gyfeiriad anheddau + ysgol
- Bydd y llety yn wag yn ystod y dydd tra bo'r ysgol ar agor
- Bydd unedau wedi'u lleoli yn yr ardal sydd eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer swyddfa'r safle a'r uned. Ni fydd angen tir ychwanegol
- Bydd mynediad i'r safle ar hyd y ffordd mynediad tarmac dros dro i'r swyddfa a fydd yn sicrhau y bydd cerbydau'n cael eu cadw oddi ar y mwd ac ni fydd mwd yn cael ei gludo ar hyd y ffyrdd lleol.
- Bydd cerrig yn cael eu gosod ar ardal yr uned dros dro. Bydd hyn yn sicrhau na fydd mwd na gweddillion yn cael eu cludo o'r uned wrth iddo gael ei ddefnyddio.
- Bydd cadw pobl ar y safle yn lleihau cymudo'r bore a'r hwyr gan arbed tagfeydd ar y ffyrdd a'n hól troed carbon
- Bydd unrhyw oleuadau sensor allanol gyda'r allbwn 'lux' lleiaf. Bydd hyn yn cael ei guddio gan y wal perimedr pridd.

### **Crynodeb**

Mae'r unedau llety dros dro yn unig at ddibenion lles y tîm safle teithiol. Bydd nifer yr unedau yn cael eu cadw i isafswm drwy gyflogi gweithwyr lleol lle bo hynny'n bosibl. Bydd yr unedau'n cael eu gosod a'u symud yn yr ardal sydd eisoes wedi'u paratoi ar gyfer swyddfeydd a storfeydd y safle, gan na fydd hynny'n cael unrhyw effaith ychwanegol ar y tir. Mae'r unedau yn rhai dros dro a dim ond yn angenrheidiol ar gyfer cyfnod y gwaith adeiladu. Ar yr adeg honno byddant yn cael eu symud yn gyfan-gwbl gan adael dim ôl-troed. Mae ystyriaeth yng nghynllun yr unedau a ffin y safle wedi'u cynllunio i sicrhau'r aflonyddwch lleiaf posibl ac i ystyried yr eiddo cyfagos o ran lleihau sŵn a llygredd golau.

Bwriedir defnyddio cysylltiadau presennol â'r brif garthffos ar gyfer yr unedau sy'n rhedeg ar hyd ymyl y môr.

### **POLISIÂU CYNLLUNIO PERTHNASOL A CHANLLAWIAU PERTHNASOL**

Mae'r polisiâu cenedlaethol a lleol canlynol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, Chwefror 2024)

S01 Twf Cynaliadwy

S02 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol

DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

DM09 Dylunio a Symud

DM10 Dylunio a Thirlunio

DM12 Seilwaith Cyfleustodau

DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy

DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol

DM15 Cadw Bioamrywiaeth Lleol

DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Amgylchedd Adeiledig a Dylunio SPG 2015

### **YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

### **DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau gan ystyried effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gallu yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

## **DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- Gwaredu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r anghenion yn wahanol rai pobl eraill;
- Annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhodddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ynghylch y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

## **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

## **YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

**Cynghorydd Elizabeth Evans:** *"Rwy'n hapus i gefnogi'r cais hwn, yn amodol ar unrhyw amodau y mae'r swyddogion cynllunio yn gofyn amdanynt wrth wneud eu penderfyniad."*

**Cyngor Tref Aberaeron:** Dim gwrthwynebiad

**Priffyrdd:** Dim gwrthwynebiad yn seiliedig ar amodau

**Draenio Tir:** Anogir yr ymgeisydd i gysylltu â'r corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB) i ddarparu cynllun diwygiedig o ran Cymeradwyaeth SAB a roddwyd yn flaenorol S230013

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Cynghorir i ofyn am gyngor ecolegydd mewnol

**Ecoleg:** Dim gwrthwynebiad -- dim effaith i safleoedd gwarchoddedig na rhywogaethau â blaenoriaeth neu gynefinoedd

**Dŵr Cymru:** Mae'r safle'n cael ei chroesi gan garthffos gyhoeddus – darparwyd cyngor

**Derbyniwyd un sylw trydydd parti ar ran Ysgol Gynradd Aberaeron:**

*Mae gennym bryderon y byddai'r bloc llety yn rhy agos at berimedr yr ysgol. Bydd y plant y tu allan yn aml iawn ac mae materion diogelu posibl a allai ddioglydd. Gan ei fod mor agos i'r ysgol, byddem yn disgwyl gwiriad DBS manwl. Rydym eisoes yn ymwybodol bod llawer o'n teuluoedd yn bryderus iawn o weld yr adroddiad ar gyfryngau cymdeithasol. Byddai wedi bod yn ddoeth hysbysu'r ysgol o'r cynigion cyn iddynt gyrraedd y gwefannau cyfryngau cymdeithasol, fel y gallem baratoi ein hunain ar gyfer yr ymholiadau a ddilynodd.*

## **CASGLIAD**

Mae adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi:

"Os ystyrir y cynllun datblygu at bwrpas gwneud penderfyniad o dan Ddeddfau Cynllunio bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaeth materion yn cyfleu fel arall".

## **Egwyddor Datblygu**

Ystyrir bod darparu adeiladau dros dro sy'n ofynnol mewn cysylltiad â ac am gyfnod y gweithrediadau a wneir i dir o'r fath neu'n gyfagos iddo yn ddatblygiad a ganiateir yn unol ag Atodlen 2 Rhan 4: Adeiladau a Ddefnyddir Dros Dro y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (GPDO) (fel y'i diwygiwyd) - yn seiliedig ar amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i symud

adeiladau o'r fath ac adfer tir cyn gynted ag y bo'n ymarferol unwaith y bydd y gweithrediadau wedi'u cwblhau.

Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r ACLI wedi ystyried nad yw Rhan 4 o'r GPDO yn darparu ar gyfer meddiannu adeiladau preswyl dros dro sy'n ymwneud â gweithrediadau a wneir gan y CAA. O'r herwydd, penderfynwyd y byddai angen cais cynllunio llawn ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

Fel yr amlinellwyd, mae ardal y safle yn ffurfio rhan o uned presennol CAA a gymeradwywyd, felly gellid lleoli darpariaeth adeiladau dros dro (di-breswyl) heb fod angen caniatâd cynllunio penodol. Felly, diben y cais hwn yn bennaf yw ystyried effaith meddiannaeth breswyl dros dro adeiladau yn y lleoliad hwn a'i derbynioldeb o safbwynt cynllunio.

Dylid nodi bod rhagor o wybodaeth a dderbyniwyd i gefnogi'r cais yn cadarnhau bod llety lleol wedi'i ddefnyddio lle bo modd, gan gynnwys safleoedd yn Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan, a Chei Newydd, gyda nifer o opsiynau llety wedi'u defnyddio gan weithwyr CAA - fodd bynnag, dywedwyd bod sawl opsiwn arall wedi'u harchebu'n llawn ar gyfer misoedd yr haf ac felly nad ydynt ar gael. Nodir y bydd gwariant ar westai lleol yn parhau lle bo angen pe bai'r llety dros dro ar y safle yn cael ei gymeradwyo - sy'n gyfanswm o 106 noson gan aelodau o'r gweithlu sydd ym ymweld ar adeg y cais (Mawrth 2024), sy'n gyfanswm gwariant o tua £10,000.

## **Effaith Amwynder**

Mae Polisi CDLI DM06 yn nodi y dylai datblygiad roi ystyriaeth lawn, a chyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun ei leoliad a'i amgylchoedd. Mae amod 7 o DM06 yn ceisio: " Amddiffyn amwynderau deiliaid eiddo cyfagos rhag niwed arwyddocaol o safbwynt preifatrwydd, sŵn a golygon "

Er mwyn asesu effaith bosibl y datblygiad ar breifatrwydd ac agwedd eiddo cyfagos, dylid amlinellu'r pellteroedd gwahanu perthnasol.

Bydd yr unedau wedi'u lleoli ~15m o bwynt agosaf ardal chwarae allanol Ysgol Gynradd Aberaeron ac yn cael eu amgylchynu gan wal 2m o uchder yn dilyn y ffin gyffredin yn y lleoliad hwn. O'r herwydd, ni fydd golygon ar dir yr ysgol o leoliad yr unedau, nac yn ei ôl. Ar ben hynny, fel yr amlinellwyd gan y cyflwyniad, disgwylir y bydd yr unedau'n wag yn ystod oriau'r ysgol.

O ran yr anheddau preswyl cyfagos - mae annedd Gloywa Heli i'r gogledd-ddwyrain yn gorwedd dros 20m o'r uned agosaf ac yn yr un modd darperir wal sgrinio 2m o fewn y safle, yn ogystal â llystyfiant ffin presennol ar dir yr annedd. I'r gogledd-orllewin, mae'r man agosaf i gefn anheddau Dolwylan, Tŷ Hana, ac Eglin yn gorffwys ~ 15m o'r unedau a darperir wal sgrinio 2m, yn ogystal â'u ffiniau cefn presennol eu hunain. Mae annedd Waters Edge yn gorwedd ymhellach ar hyd Rhodfa'r Traeth ac nid yw'n uniongyrchol gyfagos i'r ardal dan sylw.

I gloi, barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw nad yw effaith y datblygiad arfaethedig o ran preifatrwydd, diogelu ac effaith rhagolwg yn wahanol i effaith y safle a'r gwaith cysylltiedig presennol sy'n ofynnol ar gyfer cwblhau'r CAA. Er y byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at weithgarwch o fewn y safle y tu hwnt i'r trefniant cymeradwy a phresennol, ystyrir bod mesurau priodol wedi'u hystyried a byddant yn cael eu cymryd i leihau unrhyw effaith ar breifatrwydd a diogelu. Argymhellir bod amod yn gofyn am gyflawni'r wal sgrinio yn llawn cyn meddiannu unrhyw uned dros dro.

O ran sŵn - bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at ddefnydd ar y safle y tu hwnt i oriau gweithredol y CAA ac felly mae'n rhaid ystyried effeithiau bosibl sŵn ar breswylwyr preswyl cyfagos. Dylid nodi i ddechrau na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan unrhyw drydydd parti o'r ymgynghoriad cymydog a wnaed i bob annedd ar hyd Rhodfa'r Traeth, Heol yr Odyn, a Maes yr Heli.

Mae'r defnydd arfaethedig yn debygol o arwain at fwy o fynd a dod i'r darn hwn o'r safle - fodd bynnag, bydd hyn yn gyfyngedig i symud ar droed gan y bydd maes parcio ceir yn cael ei gadw ar y safle presennol yn nes at fynedfa'r uned, lle bydd goleuadau ceir a sŵn cerbydau'n cael eu cadw i fwrdd o'r anheddau preswyl.

Ym marn yr ACLI, ni fynegir unrhyw bryderon am effaith sylweddol bosibl ar amwynder cyfagos gan synau symudiadau cyffredinol o fewn y safle - fodd bynnag, mae unrhyw gynnydd mewn sŵn ar oriau anghymdeithasol yn debygol iawn o effeithio ar amwynder preswylwyr gerllaw. Ar y sail hon, argymhellir gosod amod i gyfyngu ar unrhyw gynnydd mewn sŵn rhwng 7pm a 7am i gyd-fynd ag oriau gweithredu a ganiateir y safle.

I gloi, barn yr ACLI yw y gellir caniatâi'r datblygiad arfaethedig heb niwed sylweddol i amwynder cyfagos, yn seiliedig ar amodau, ac er mwyn hwyluso'r gwaith hanfodol sy'n cael ei wneud gan y CAA yn Aberaeron. Dylid nodi hefyd, os bydd unrhyw faterion neu gŵyn a wneir mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, y gall y Cyngor fel trefeddiannwr a chleient y gwaith fynd i'r afael â a datrys unrhyw faterion a godwyd gan breswylwyr gyda'r contractwr yn uniongyrchol i sicrhau bod unrhyw amhariad a achosir yn cael ei gadw i'r lleiafswm angenrheidiol.

## **Effaith Weledol**



Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae darparu adeiladau dros dro ar y cyd â gweithrediadau parhaus y mae eu hangen arnynt yn elwa mewn egwyddor o hawliau datblygu a ganiateir.

Ar y sail honno, a'r defnydd presennol a chymeradwyol o'r llain o dir o fewn yr unedgellir ystyried darpariaeth adeiladau dros dro mewn cysylltiad â'r defnydd parhaus o'r safle yn llawn ac felly nid yw'n codi pryder am effaith weledol niweidiol y tu hwnt i'r hyn a gymeradwywyd ac a ddisgwyllir gan waith ar y raddfa hon.

